**Uned 22**

**Ysbaddiad**

**Taflen Wybodaeth**

**Cyflwyniad**

Mae ysbaddu anifail gwryw yn golygu atal y ceilliau rhag gweithio trwy atal cynhyrchu'r hormonau gwryw fel bod yr anifail ddim yn gallu atgenhedlu. Golyga gwasgu'r llinyn arffedol (*vas deferens*) ac weithiau gwaredu'r caill.

**Ysbaddiad**

**i) Mae Lloi Bîff yn cael eu Hysbaddu:**

- er mwyn eu hatal rhag paru ar ôl iddynt gyrraedd glasoed
- oherwydd mae bustych fel arfer yn fwy tawel ac yn haws eu rheoli na theirw
- oherwydd bod bustych yn pesgi ynghynt na theirw

**ii) Mae Ŵyn Hwrdd yn cael eu Hysbaddu:**

- i'w hatal rhag paru ar ôl iddynt gyrraedd glasoed
- cyfradd besgi gyflymach
- gwell ansawdd cig

**Dulliau o Ysbaddu**

Y 3 phrif ddull o ysbaddu yw:

1. Y *Burdizzo*
2. Y Rwber Cylchog
3. Ysbaddiad Llawfeddygol

**1. Y Dull *Burdizzo***

- gelwir hefyd yn ysbaddwr di-waed
- cael ei enwi ar ôl ei ddyfeisydd
- pâr o efeiliau di-fin
- dau arwyneb gwasgu di-fin yn torri'r wythïen a'r llinyn caill y tu mewn i'r goden ceillgydol
- nid yw'r goden geillgydol yn cael ei thorri
- y canlyniad yw bod y ddwy gaill yn crebachu ac yn marw
- mae'n bosib cael chwydd, ond siawns bychan sydd o haint.

**2. Y Rwber Cylchog neu'r Hydwythydd**

- rwber cylchog tynn yn cael ei osod uwchben y ceilliau
- mae'n gwasgu gwddf y goden geillgydol
- mae'n torri'r cyflenwad gwaed
- ymhen amser bydd y ceilliau a'r goden geillgydol yn crebachu ac yn syrthio i ffwrdd
- siawns bychan sydd o haint
- craith fechan ar ôl i'r goden syrthio i ffwrdd.

### 3. Ysbaddiad Llawfeddygol

- gwneir toriad yn y goden geillgydol
- torrir y llinyn spermadig
- y wythïen yn cael ei rhwygo allan
- ceilliau'n cael eu tynnu
- risg uchel o haint
- clwyf agored

| | *Burdizzo* | Rwber Cylchog | Dull Llawfeddygol |
|---|---|---|---|
| **Manteision** | • Di-waed<br>• Llai o risg haint<br>• Dim siawns o bla cynrhon yn yr haf | • Di-waed<br>• Llai o risg haint<br>• Hawdd trin y lloeau a dim llawer o waith | • Mae ysbaddiad yn anwrthdroadwy gan fod y ceilliau wedi eu tynnu |
| **Anfanteision** | • Poenus os na ddefnyddir anaesthetig | • Craith fechan ar ôl yn gallu denu pryfed neu'r anifail yn dal tetanws | • Colli Gwaed<br>• Risg uchel o haint<br>• Dim yn addas yn yr haf |

**Crynodeb o Ddeddfau Ysbaddiad**

- mae'n drosedd ysbaddu lloeau sydd wedi cyrraedd dau fis oed heb ddefnyddio anaesthetig

- gellir caniatáu defnyddio'r rwber cylchog, neu ddyfais arall, i atal llif y gwaed i'r ceillgwd, heb anaesthetig dim ond os yw'r ddyfais yn cael ei defnyddio yn ystod wythnos gyntaf bywyd

- dim ond milfeddyg all ysbaddu llo sydd wedi cyrraedd dau fis oed

- ni ddylid ysbaddu ŵyn hyd nes bod y perthynas clos oen/dafad wedi'i sefydlu

- unwaith mae'r oen wedi cyrraedd tri mis oed, dim ond milfeddyg all wneud yr ysbaddiad trwy ddefnyddio anaesthetig addas

- mae'n drosedd ysbaddu ŵyn sydd wedi cyrraedd tri mis oed heb ddefnyddio anaesthetig